



ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG Cymru Rhaglen Ddysgu ym maes Cynllunio

Diploma Ôl-raddedig mewn Cynllunio Gofal Iechyd

CARFAN 5 – Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 23 Mehefin 2023

Pecyn Recriwtio

Mewn partneriaeth ag Ysgol Fusnes Caerdydd



www.cardiff.ac.uk/cy



Diben

Cynllunio yw sylfaen system gofal iechyd Cymru ac felly mae angen sgiliau cynllunio cryf a chadarn er mwyn cefnogi GIG Cymru. Yn wahanol i gydweithwyr Cyllid ac Adnoddau Dynol (AD), mae cynllunwyr yn dod o gefndiroedd gwahanol a chanddynt brofiadau amrywiol ac, yn aml, nid ydynt wedi cael cyfle i astudio cymhwyster cynllunio ffurfiol.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru, trwy weithio gyda Chymuned Gynllunio GIG Cymru, wedi creu Academi Gynllunio a fydd yn datblygu gwybodaeth cynllunwyr a'r rhai sy'n cynllunio ymhellach, o fewn system Cymru.

Bydd yn cyflawni hyn trwy ddigwyddiadau a gweithgareddau dysgu amrywiol, gan adeiladu cymuned a fydd yn creu arbenigedd ar y cyd, rhannu gwybodaeth, profiad ac arfer gorau.

Un o brif golofnau rhaglen yr Academi Gynllunio yw'r Diploma Ôl-raddedig mewn Cynllunio Gofal Iechyd ac rydym yn chwilio am unigolion talentog, brwdfrydig i'w gyflawni.

Cymerwch amser i ddarllen y pecyn recriwtio hwn i gael rhagor o wybodaeth.

Partner Academaidd

Mae Ysgol Fusnes Caerdydd, sef y chweched orau yn y DU yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf, wedi derbyn y contract 5 mlynedd i ddarparu'r Diploma Ôl-raddedig ar gyfer Cynllunio Gofal Iechyd. Dechreuwyd y cwrs ym mis Hydref 2019 ac mae tair carfan o fyfyrwyr eisoes wedi dechrau'r rhaglen.

Bydd myfyrwyr a dderbynnir i'r rhaglen yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, rhan o'r Grŵp Russell mawr ei fri a'r brifysgol orau yng Nghymru, er mwyn ennill eu cymhwyster Cynllunio Gofal Iechyd trwy raglen ddysgu 18 mis. Bydd yn cael ei addysgu gan dîm rhyngddisgyblaethol o arbenigwyr academaidd o'r Ysgol Fusnes, yr Ysgol Feddygaeth a'r Ysgol Fathemateg, er mwyn mynd i'r afael â'r sgiliau amrywiol sydd eu hangen ar gyfer cynllunio llwyddiannus.

Bydd y rhaglen yn darparu cymysgedd o sesiynau dysgu, ymarferion ymarferol, deunydd ar-lein ac asesiadau dros chwe modiwl o dan arweiniad tîm cyflwyno academaidd arbenigol. Bydd y modiwlau hyn yn ceisio datblygu'r sgiliau angenrheidiol fel y gellir ymgymryd â chynllunio integredig cynaliadwy a fydd yn cefnogi'r ffyrdd newydd o weithio sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r amgylchedd newydd a amlinellir yn Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018). Bydd siaradwyr gwadd ac astudiaethau achos yn ychwanegu at y dysgu gyda mewnwelediadau perthnasol, diddorol er mwyn helpu aelodau'r garfan i gymhwyso'r dysgu at eu sefydliadau.

Mae'r Diploma yn helpu i godi proffil proffesiynol cynllunio fel mecanwaith ar gyfer trawsnewid. Mae'n darparu porth i ddatblygu mwy o dalent o fewn GIG Cymru gan ddarparu llwybr i gynllunio ar gyfer olyniaeth hefyd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Diploma mae croeso i chi gysylltu â Chyfarwyddwr y Rhaglen, sef yr Athro Helen Williams (williamsh54@cardiff.ac.uk). Bydd hi naill ai'n gallu ateb eich cwestiynau mewn e-bost neu'n trefnu amser i gael galwad Teams gyda chi.

Amlinelliad o'r cwrs

Mae'r diploma ôl-raddedig yn gwrs rhan-amser 18 mis sy'n cynnwys chwe modiwl:



Bydd pob modiwl gwerth 20 credyd. Ac elthrio 'Ymchwil, Cynllunio Busnes a Gwerthuso' (gweler yn ddiweddarach), mae'r modiwlau wedi'u sellio ar 2 ddiwrnod o ddarpariaeth wyneb yn wyneb a gynhellr ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi'i hategu gan adnoddau digidol. Ar wahân i hynny bydd angen ichi astudio'n annibynnol, ac er mai chi fydd i amserlennu'r rhan fwyaf o hyn o amgylch elch ymrwymladau eraill, bydd rhai diwrnodlau astudio wedi'u hamserlennu i hwyluso dysgu gan gymhelriald a chyfleoedd i dderbyn cymorth gan y gyfadrn.

Mae cyfanswm amser pob modiwl yn cynnwys gwethlo drwy'r deunydd ar-lein, mynd i sesiynau wedi'u hwyluso (yng Nghaerdydd ac ar-lein), darllen annibynnol ychwanegol (yn ystod y diwrnodlau astudio a amserlennir i'r garfan ac ar ddiwrnodlau eraill), a pharatol am, a chymryd rhan mewn asesiad.

- **Cynllunio Strategol ac Arloesi**

Mae cynllunio strategol a defnydd priodol o arloesi yn ganolog i gynaliadwyedd y GIG. Mae'r modiwl hwn yn rhoi plattform i chi ddeall, dadansoddi a gwneud dewisiadau cynllunio strategol priodol a rheoli arloesedd o fewn eich sefydliad a'r GIG yn ehangach.

- **Cynllunio Cydweithredol ac Integreiddio**

Cefnogir gofal iechyd gan gydweithredu ar nifer o lefelau gwahanol o fewn, ac yn gynyddol ar draws sefydliadau. Yng nghyd-destun hybu integreiddio, byddwch yn archwilio'r rhesymeg dros gydweithredu a'r mathau o gydweithredu sy'n bodoli, yn ogystal â rôl strwythurau, prosesau ac asiantaethau sefydliadol sy'n ei alluogi neu'n ei atal.

- **Tystiolaeth a Dadansoddeg Cynllunio Gofal Iechyd**

I gefnogi penderfyniadau ar sail tystiolaeth rhaid comisiynu, cynhyrchu a dehongli dadansoddiadau o ddata perthnasol. I gefnogi hynny rhaid cyflwyno mewn modd hygrych i alluogi dealltwriaeth a defnydd o'r data. Bydd y modiwl hwn yn annog defnydd beirniadol o ddadansoddiadau data, sy'n berthnasol wrth gynllunio ym maes gofal iechyd.

• **Adnoddau: Cyllid a Phobl**

Ceir goblygiadau wrth gynllunio o ran adnoddau sefydliadol. Bydd y modiwl hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag egwyddorion, prosesau a thechnegau sy'n berthnasol ar gyfer cynllunio ariannol, rheoli risg a monitro perfformiad. Bydd hefyd yn archwilio'r ystyriaethau sy'n gysylltiedig â phobl a allai gael dylanwad ar benderfyniadau cynllunio.

• **Ymchwil, Cynllunio Busnes a Gwerthuso**

Bydd y modiwl hwn yn datblygu eich gwybodaeth ynglŷn â'r broses ymchwil a'r defnydd o wahanol fathau o dystiolaeth i lywio cynllunio a newid. Byddwch yn ystyried dulliau ar gyfer datblygu achos busnes cymhellol ac yn archwilio ystod o ddulliau o ran gwerthuso gwasanaeth. Sylwer y bydd y modiwl hwn yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl ar-lein, gyda chymorth wedi'i drefnu.

• **Arwain a Chynllunio Newid**

Mae dull effeithiol o arwain a rheoli newid yn hanfodol er mwyn osgoi 'bwlch gweithredu' rhwng bwriad cynllunwyr a'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Bydd y modiwl hwn yn gwerthuso'r sylfaen dystiolaeth a'r goblygiadau ymarferol ar gyfer arwain newid. Byddwch yn cael eich cynorthwyo i fyfyrio ynghylch ffyrdd y gallech ddatblygu eich arferion fel 'arweinydd' ac 'asiant newid'.

Bydd cyflogwr yr unigolyn yn talu costau teithio, cynhaliaeth a llety'r myfyrwyr hynny y mae angen iddynt aros yng Nghaerdydd.

Dyddiadau Modiwlau

Cynhelir dau ddiwrnod sefydlu ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Medi wrth ichi ddechrau'r rhaglen, ac ar ôl hynny byddwch yn astudio pob modiwl yn ei dro. Ar gyfer pob modiwl, bydd y deunyddiau ar-lein, y mae angen gweithio drwyddynt cyn y ddarpariaeth a gynhelir yng Nghaerdydd, yn cael eu rhyddhau ar ddechrau'r modiwl, a bydd y terfynau amser ar gyfer asesu wedyn yn cael eu pennu ar ddiwedd bob modiwl.

Dyddiadau	Darpariaeth a gynhelir yng Nghaerdydd	Modiwl
Medi 2023	18 a 19 Medi 2023	Sefydlu – Ymrestru, Croeso, Gwasanaethau Myfyrwyr, Adeiladu Cohortau
Medi 2023 hyd Tachwedd 2023	23 a 24 Hydref 2023	Modiwl 1: Cynllunio Strategol ac Arloesi
Tachwedd 2023 hyd Chwefror 2024	22 a 23 Ionawr 2024	Modiwl 2: Cynllunio Cydweithredol ar gyfer Integreiddio
Chwefror 2024 hyd Mai 2024	22 a 23 Ebrill 2024	Modiwl 3: Cynllunio Gofal Iechyd – Tystiolaeth a Dadansoddeg
Medi 2024 hyd Tachwedd 2024	14 a 15 Hydref 2024	Modiwl 4: Adnoddau – Cyllid a Phobl
Tachwedd 2024 hyd Chwefror 2025	Amh.	Modiwl 5: Ymchwil, Cynllunio Busnes a Gwerthuso
Chwefror 2025 hyd Mai 2025	24 a 25 Mawrth 2025	Modiwl 6: Arwain a Chynllunio Newid

**Bydd yr amserlen lawn yn cael ei chadarnhau ym mis Gorffennaf 2023 ar gyfer blwyddyn acadeimaidd 2023/24 ac ym mis Gorffennaf 2024 ar gyfer blwyddyn acadeimaidd 2024/25.*

Mae'n bwysig nodi gan mai dyma garfan olaf Diploma'r Academi Gynllunio mewn Cynllunio Gofal Iechyd, ei bod yn bwysig bod yr ymgeiswyr yn gallu mynychu pob un o'r dyddiadau cyflwyno hyn, gan na fydd dyddiadau eraill ar gael yn y dyfodol. Bydd yr Ysgol Fusnes yn ymdrechu i roi cymorth amgen i unrhyw fyfyrwr sy'n methu â mynychu unrhyw sesiwn benodol, ond bydd hyn yn golygu elfen lawer fwy o astudio unigol.



Carfan 1

Meini prawf cymhwysedd

Bydd angen i chi sicrhau cefnogaeth y sefydliad sy'n eich cyflogi / sefydliad yr ydych yn gweithio gydag ef er mwyn gallu ymuno â'r rhaglen.

Fel arfer bydd angen bod ymgeiswyr naill ai:

a) Yn raddedigion o brifysgol gydnabyddedig gydag isafswm gradd 2:1 ac o leiaf 3 blynedd o brofiad gwaith perthnasol.

NEU

b) Yn meddu ar gymwysterau proffesiynol helaeth a/neu brofiad gwaith proffesiynol sylweddol.

Os ydych chi'n dymuno cael eich argymell ar gyfer mynediad ar sail profiad yn unig, yna bydd yn rhaid i'ch cyflogwr drafod

eich profiad gyda'r Arweinydd Academaidd, yr Athro Helen Williams – WilliamsH54@cardiff.ac.uk. Cysylltwch â Helen os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r rhaglen.

Ar gyfer gweithwyr GIG Cymru, bydd y sefydliad sy'n eich cyflogi wedn gyfrifol am gynorthwyo'r ymgeiswyr, o ran ad-dalu costau teithio, cynhaliaeth a llety, sy'n debygol o godi wrth fynychu'r modiwlau a addysgir yn Ysgol Fusnes Caerdydd; ac o ran cynnig amser astudio digonol, mynediad at wybodaeth a chymorth gan reolwyr er mwyn gwneud y cwrs.

Adborth gan y Cyfranogwyr

“Mae'r cwrs yn gyfle pwysig i rwydweithio â chydweithwyr cynllunio'r GIG o bob rhan o GIG Cymru, o ystod o feysydd gwasanaeth na fyddwn fel arfer yn rhyngweithio â nhw. Rwyf eisoes wedi manteisio ar rai o'r cysylltiadau newydd yr wyf wedi'u gwneud drwy fy ngwaith, ac mae hynny wedi bod yn wych.”

“Rydw i mor falch ein bod wedi gallu astudio Cynllunio Strategol ac Arloesi cyn dyfodiad COVID-19. Roeddem wedi dysgu ynglŷn â chynllunio yn y Fyddin ac wedi datblygu rhai cysylltiadau gwych a brofodd i fod yn amhrisiadwy pan oedd angen i ni addasu popeth.”

“Mae'n anodd delio â'r gwaith sy'n ofynnol, y swydd a bywyd teuluol, ond mae'r pethau rydyn ni'n eu dysgu, y rhwydwaith rydyn ni'n ei adeiladu, yn ei gwneud yn werth yr ymdrech”

“Rwy'n pryderu am y modiwl Dadansoddeg ond rwy'n gyffrous ar yr un pryd. Rwy'n gwybod y bydd dadansoddeg o gymorth mawr imi gynllunio, a bydd gweithio gydag academyddion sy'n gwneud y cynnwys yn hygyrch, yn gyfle perffaith imi ennill y set hon o sgiliau”

Proffil Myfyriwr Diploma Ôl-raddedig mewn Cynllunio Gofal Iechyd

Gofyniad	Hanfodol	Dymunol
ACADEMAIDD		
Gofyniad Prifysgol Caerdydd: Addysgwyd i lefel gradd neu o leiaf 3 blynedd o brofiad cyfwerth	✓	
Gofyniad Prifysgol Caerdydd: 3 blynedd o brofiad rheoli perthnasol neu brofiad o reoli prosiectau	✓	
Y gallu i astudio ar lefel 7 ôl-radd	✓	
Gwybodaeth academiaidd am ymchwil sylfaenol a sgiliau dadansoddi ystadegol (neu'r gallu i ddangos defnydd o hyn mewn amgylchedd gwaith)		✓
PROFIAD		
Profiad o gyfrannu at, neu ddatblygu cynllun gwasanaeth amlddisgyblaethol, cymhleth	✓	
Profiad o ddatblygu a gweithredu achosion busnes		✓
Profiad o fonitro a gwerthuso gweithrediad cynllun		✓
Profiad o gynllunio strategol hirdymor		✓
Profiad o gyfrannu at, neu arwain, proses gwneud penderfyniadau	✓	
Profiad o weithio o fewn amgylchedd cynllunio		✓
Profiad o gydweithio â rhanddeiliaid		✓
Profiad o ddylanwadu trwy waith prosiect, cadeirio cyfarfodydd, arwain staff	✓	
Profiad o gymryd rhan mewn rhaglenni rheoli newid neu eu harwain	✓	
Profiad comisiynu		✓
Profiad o (neu'r gallu i ddangos dealltwriaeth sylfaenol o) reoli adnoddau (ariannol neu weithlu)	✓	
Y SEFYLLFA BRESENNOL		
Bydd yr ymgeisydd mewn sefyllfa i gynnal prosiect ystyrlon fel rhan o'r diploma, gyda'r potensial i weithredu newidiadau a nodwyd o ganlyniad i'r prosiect	✓	
Mae'r ymgeisydd ar gam yn ei yrfa lle bydd y cwrs o fudd iddo ef fel unigolyn ac i'r sefydliad	✓	
Mae gan yr ymgeisydd angen presennol a phenodol i ddatblygu sgiliau cynllunio penodol, naill ai o fewn cynllunio fel llwybr gyrfa a ddewiswyd, neu lle bydd cynllunio yn ffurfio rhan sylweddol o lwyth gwaith yn y dyfodol e.e. gweithio tuag at lefel Rheolwr Cyffredinol/Rheolwr Rhanbarthol	✓	
Mae gan yr ymgeisydd wybodaeth gadarn am y system gynllunio bresennol o fewn GIG Cymru	✓	
Mae gan ymgeiswyr ddiddordeb yn yr amgylchedd gwleidyddol a deddfwriaethol presennol sy'n effeithio ar y maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gwybodaeth sylfaenol amdano	✓	

Nawdd Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Rhaglen Ddysgu ym maes Cynllunio ac wedi cefnogi'r diploma ôl-raddedig a gynlluniwyd drwy ddarparu 100% o gyllid ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. I rai sy'n dechrau'r rhaglen o fis Medi 202, bydd Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn rhannu'r costau ar sail 50/50.

Mae'r cyllid hwn yn talu ffioedd y cwrs sef **£6,052** fesul myfyriwr fesul diploma.

Prifysgol Caerdydd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran pa ymgeiswyr fydd yn cael eu derbyn ar y rhaglen. Nid yw'r broses hon yn disodli proses derbyniadau cyffredinol y brifysgol.

Cyfranogwyr ar y cwrs

Cynigir y bydd 25 o gyfranogwyr yn cael eu cynnwys yng Ngharfan 5. Ystyrir ceisiadau gan gynllunwyr, rhai sy'n cynllunio ac unigolion sy'n dymuno datblygu eu gallu i gynllunio ar draws GIG Cymru.

Bydd ceisiadau hefyd yn cael eu hystyried gan rai o'r Gwasanaethau Cymdeithasol/o Awdurdodau Lleol syn gweithio gyda chydweithwyr GIG Cymru ym maes cynllunio. Cysylltwch â Jenny Williams, workforce@adss.cymru i drafod cyfleoedd.

Sut i wneud cais

Bydd y broses ymgeisio yn cael ei rheoli'n lleol, felly bydd angen i'r sefydliad sy'n eich cyflogi asesu eich gallu i gael eich dewis i astudio ar gyfer y cymhwyster hwn.

Mae'r datganiad o ddiddordeb wedi'i atodi yn Atodiad 1. Bydd angen ei lenwi a'i ddychwelyd i'ch Cyfarwyddwr Cynllunio erbyn 23 Mehefin 2023. Mae'n rhaid i'ch sefydliad sicrhau bod y datganiad yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Gorffennaf.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus wneud cais ffurfiol i Brifysgol Caerdydd erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023, a byddant yn cael gwybod yn fuan ym mis Awst 2023 a ydynt wedi sicrhau lle ar gyfer hydref 2023. Bydd penderfyniad y broses ymgeisio hon yn derfynol ac ni fydd yn destun prosesau apelio.

Tasg	Dyddiad Cau
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i Gyfarwyddwyr Cynllunio o fewn eich sefydliad	23 Mehefin 2023
Dyddiad cau i Lywodraeth Cymru dderbyn ceisiadau	31 Gorffennaf 2023
Ymgeiswyr: Bydd Ysgol Fusnes Caerdydd yn cadarnhau'r dystiolaeth o gymwysterau a chymhwystra	17 Gorffennaf 2023
Llywodraeth Cymru i hysbysu'r ymgeiswyr llwyddiannus	25 Gorffennaf 2022 ymlaen
Ysgol Fusnes Caerdydd i wahodd ymgeiswyr i'r cwrs	1 Awst 2023 ymlaen
Ymrestru/digwyddiad sefydlu	Medi 2023



Ffurflen Mynegi Diddordeb			
Enw:			
Swydd:			
Sefydliad:			
Manylion cyswllt: Ffôn ac e-bost			
Cymwysterau a ddelir:	Teitl y cymhwyster	Dyddiad y'i cwblhawyd	Sefydliad
Profiad sy'n gyfwerth â lefel gradd:			
Disgrifiwch sut rydych yn bodloni'r 'meini prawf hanfodol' a ddisgwylir ar gyfer y rhai sy'n astudio ar gyfer Diploma mewn Cynllunio Gofal Iechyd (heb fod yn fwy na 500 o eiriau)			
Disgrifiwch sut rydych yn bodloni'r 'meini prawf dymunol' a ddisgwylir ar gyfer y rhai sy'n astudio ar gyfer Diploma mewn Cynllunio Gofal Iechyd (heb fod yn fwy na 500 o eiriau)			
Pa fuddion y credwch y byddwch yn eu cyflawni trwy gwblhau'r Diploma mewn Cynllunio Gofal Iechyd? (heb fod yn fwy na 500 o eiriau)			
Sut fydd eich sefydliad yn elwa os byddwch chi'n ymgymryd â'r cwrs hwn? (heb fod yn fwy na 500 o eiriau)			
Llofnodwch isod i gadarnhau'r ddau Ddatganiad Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yma:			
- Rydw i'n cadarnhau fy mod yn hapus i rannu fy manylion gyda Phrifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru a phartïon eraill â diddordeb. - Rydw i'n cadarnhau os caf fy nerbyn ar y rhaglen fy mod yn hapus i Brifysgol Caerdydd rannu manylion am fy nghynnydd ar y rhaglen gyda staff perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu a gwerthuso'r rhaglen. <i>Sylwer: Bydd y rhannu gwybodaeth hwn yn ymwneud â chynnydd myfyrwyr yn unig a dim ond ar ffurf 'ydy/nac ydy', er enghraifft, a yw'r myfyriwr wedi symud ymlaen yn llwyddiannus o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 2, wedi cwblhau'r Diploma'n llawn, wedi cael eu hoedi wrth gwblhau eu hastudiaethau, neu wedi tynnu'n ôl neu nad ydynt bellach yn fyfyrwr. Ni fydd unrhyw fanylion am eich amgylchiadau personol na'ch marciau yn cael eu rhannu.</i>			
(llofnod)			

CWBLHEWCH CYN GWNEUD ENWEBIAD I LYWODRAETH CYMRU:

Rydw i mewnosodwch lofnod y Cyfarwyddwr Cynllunio yn cadarnhau bod y cais hwn wedi'i gymeradwyo a'i fod wedi derbyn sicrwydd ansawdd. Mae mewnosodwch enw'r sefydliad yn sicr ac wedi gweld tystiolaeth ddigonol o gymwysterau ar gyfer y diploma hwn ac wedi'i derbyn gan yr enwebai.

Gofynnir i chi ddychwelyd y ffurflen hon i'ch Cyfarwyddwr Cynllunio erbyn 23 Mehefin 2022.

Dylai Cyfarwyddwyr Cynllunio anfon y ceisiadau a gefnogir ganddynt ymlaen i Lywodraeth Cymru erbyn 3 Gorffennaf 2023. Dylid anfon y ceisiadau i HSS-PlanningTeam@llyw.cymru